# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Gorffennaf 2024 – Cyfrol 9 – Rhifyn 10

## Hanesion diddorol y mis diwetha



Beth mae'r rhain yn ei wneud? (t. 7)



Moment hanesyddol i GPD Llandyrnog (t. 2)



Dewch i adnabod yr un y tu ôl i gadach gwddf Doddie Aid (t. 9)

Ymweliad gan feicwyr modur arbennig iawn (t. 4)





Hwyl di-ben-draw yn y sioe geffylau (t. 11)

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais o'r* eglwys neu o Tŷ Ceffyl Bach, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

**Priodasau: Llongyfarchiadau ...**

... i Catrin Morgan-Lee, gynt o Nant Glyd, ac Andrew Gale-Hasleham ar eu priodas a fu yng Nghaer;

... Ben a Beci ar eu priodas yn Streatly-on-Thames. Mae Ben yn ŵyr i Sylvia Evans, Maes Clwyd, a bydd yntau a Beci yn byw yn Caversham;

... i William Kent a Sioned ar eu priodas yn Barton-le-Street, Swydd Efrog. Mae Sioned yn wyres i Gwilym a Myfanwy Williams, Gwylfan.

**Pen blwydd hapus** i John Rowlands, a ddathlodd ei ben blwyddyn 80 oed ym mis Mehefin, ac i Gwilym Williams, a fydd yn dathlu'r 90 ganol y mis.

**Cydymdeimlwn** â theulu'r diweddar Mark Roberts a oedd yn wyneb cyfarwydd yn y pentre cyn iddo symud i Ddinbych i fyw; ac ag Aeron Ellis, Gader Goch, ar golli ei nith.

**Croeso** i'r pentre i Gwydion, Llinos a Twm i Dŷ Capel Dyffryn.

**Llongyfarchiadau...**

... i Tomos Davies, Hafod y Bryn, gynt ar ei benodiad yn Gyfarwyddwr Cyswllt cwmni ymgynghorwyr eiddo Cooke and Arkwright, Caerdydd;

... i Daniel Lloyd, Maes Tyrnog, cyfarwyddwr y ddrama *Constellations/Cytserau* a berfformiwyd yn Theatr Clwyd yn ddiweddar. Roedd yn llwyddiant ysgubol a'r adolygiadau yn canmol y cynhyrchiad yn fawr iawn;

... i Craig a Pym, Rhes Oliver, ar enedigaeth eu mab.

**HWB OLAF LLANDYRNOG**

**Dydd Mercher, 24 Gorffennaf**

**11am–3.30pm**

**ym Mhafiliwn Cae Nant**

**Llysiau organig ar werth hefyd**



Cafwyd eiliad fythgofiadwy yn hanes CPD Llandyrnog y mis diwetha. Yn y gêm yn erbyn Trefnant yng Nghynghrair Pêl-droed yr Haf, daeth Mally Hughes oddi ar y fainc yn 60 oed, gan gyd-chwarae â'i ddau fab, Tom a Sam, am y tro cyntaf. Mae Mally wedi chwarae dros 40 tymor i'r clwb.


hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun | $1^{af}$ | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mawrth | $2^{il}$ | Pwyllgor y Sioe Flodau, 7–8pm |
| Mercher | $3^{ydd}$ | Pilates 7–8pm |
| Sad | $6^{ed}$ | Grŵp crefftau, 10am–4pm<br>Parti pen blwydd 11am–2pm |
| Llun | $8^{fed}$ | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mawrth | $9^{fed}$ | Sioe Ysgol Bryn Clwyd, 5.30–7pm |
| Mercher | $10^{fed}$ | Pilates 7–8pm |
| Sadwrn | $13^{eg}$ | Bore coffi: Capel y Dyffryn, 10–11.15am |
| Sul | $14^{eg}$ | Llan Llanast 3.30–5pm |
| Llun | $15^{fed}$ | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mawrth | $16^{eg}$ | Mynachod Tibet, 6–10pm |
| Mercher | $17^{eg}$ | Pilates 7–8pm |
| Sul | $21^{ain}$ | Ffair Grefftau, 10am– 3pm |
| Llun | $22^{ain}$ | Côr 7.30–9.30pm |
| Sad | $27^{ain}$ | Bore coffi: Prostate Cancer UK, 10–11.15am |
| Llun | $29^{ain}$ | Côr, 7.30–9.30pm |

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | $1^{af}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Cyfarfod pwyllgor y Llais, 7pm |
| Maw | $2^{il}$ | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Iau | $4^{ydd}$ | Etholiad cyffredinol |
| Llun | $8^{fed}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Mer | $10^{fed}$ | Undeb y Mamau, 2pm |
| Llun | $15^{eg}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | $16^{eg}$ | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mer | $17^{eg}$ | Tuesday Club |
| Iau | $18^{fed}$ | Gweithdy crefftau, 7–9pm |
| Sad | $20^{fed}$ | Gweithdy crefftau, 10am–12pm |
| Llun | $22^{ain}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Grŵp cwiltio, 7pm |
| Llun | $29^{ain}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |

*I hurio'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

## Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| $7^{fed}$ | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| $14^{eg}$ | 11.15am<br>3.30 pm | Cymun Bendigaid<br>Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| $23^{ain}$ | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| $28^{ain}$ | 11.15am | Boreol Weddi |

## Costau hurio Neuadd y Pentre

| | HYD AT 2 AWR | FESUL AWR AR ÔL 2 AWR |
|---|---|---|
| Y NEUADD | £30 | £10 |
| Y NEUADD A'R GEGIN | £40 | £12 |
| YR YSTAFELL ISAF | £20 | £7 |
| YR YSTAFELL ISAF A'R GEGIN | £25 | £10 |
| BOREAU COFFI LLEOL (y neuadd a'r gegin) | £30 | |

Sylwer: trefnwyr boreau coffi lleol i osod y byrddau a chadw pob peth ar y diwedd. Rhaid mynd â'r holl wastraff o'r neuadd. I logi'r neuadd, cysylltwch ag Ivan: ivanbutler897@btinternet.com

# Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 07/07 | 10.00 | Sul Bro |
| 14/07 | | Pererindod |
| 21/07 | 10.00 | Sul Teulu |
| 28/07 | 9.45 | Parch Andras Iago |

***Llongyfarchiadau*** i bawb gyrhaeddodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Meifod eleni, yn enwedig Leusa Jên, Gwenan a Beca ar eu llwyddiannau ar gystadleuthau llwyfan yr Eisteddfod.

Hefyd il Mary Mars Lloyd ar ddod yn hen-nain eto, i Leia Haf,  merch Anna a John o Wyddelwern, a chwaer fach Gwen.

## Rhaghysbysiad

**Capel y Dyffryn, Llandyrnog**
**Cyflwyniad Cerddorol dan arweiniad**
y Parch Robert Parry, BMus, BD Lerpwl
Pnawn Sul Medi 22ain am 5 o'r gloch
**Llywydd:** Yr Athro Elwen Mair Evans CB
**Cyflwynydd**: Nic Parry, Gellifor
Tocyn £10, plant am ddim
Elw at yr adeiladau a Hosbis St Cyndeyrn

## Capel y Dyffryn

## Bore Coffi

**Dydd Sadwrn, 13 Gorffennaf**
**10 – 11.30 yn Neuadd y Pentre**
**Stondinau arferol, raffl**
**Croeso cynnes i bawb**

## Bore Coffi

PROSTATE CANCER UK

**Dydd Sadwrn, 27 Gorfennaf**
**10–11.30am yn Neuadd y Pentre**
*Derbynnir yn ddiolchgar roddion at y stondin cynnyrch cartre ac eitemau newydd a heb eu defnyddio ar gyfer y raffl*

# Taith Parch

Ddydd Sadwrn, 1 Mehefin, aeth y Gwarchodlu Cymreig ar eu Taith Parch drwy Ogledd Cymru fel rhan o Daith Parch Ynysoedd Falkland 24. Dechreuodd y daith o Fodhyfryd yn Wrecsam am 8 o'r gloch y bore, gan ymweld â chofebau i'w cyd-filwyr. Daethon nhw i Ysgol Bryn Clwyd i ddangos parch i'r Gwarchodfilwr Peter Edwards, a laddwyd ar faes y gad yn Bluff Cove, 1982.



Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y bore coffi ddydd Sadwrn, 22 Mehefin. Codwyd y swm anrhydeddus iawn o **£330** a fydd yn cael ei rannu rhwng Llan Llanast Eglwys St Tyrnog aShelter Cymru.


**GLYN EVANS AUTOCLINIC**
**Canolfan Trwsio Ceir**
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
**01745 815141**
**07808970364**



# Hanesion Hazel

Mae mis Gorffennaf yn fis o 'aros' – mae pob peth wedi'i blannu ac yn tyfu o'r diwedd. Mae'r tymor wedi bod yn hir yn dechrau gan fod mis Mehefin wedi bod mor oer a gwlyb.

Mae gen i jobsys dwi'n hoffi'u gwneud yr adeg hon o'r flwyddyn, gan mai dyma'r adeg orau i gymryd toriadau o blanhigion fel y gynffon las – *buddleia*, trilliw ar ddeg – *hydrangea* a'r ffiwsia. Bydd angen digonedd o flaenau egin meddal a hyblyg a fydd yn gwreiddio'n gyflym, gobeithio. Dwi'n hel fy nhoriadau'n gynnar cyn i'r haul godi. Egin sydd heb fod yn blodeuo yw'r rhai gorau, a thorrwch nhw o dan gwgn – *node,* neu flaguryn, tua 10cm o hyd. O dan gwgn mae hormonau wedi crynhoir, sy'n rhoi hwb i ddechrau tyfu. Dwi'n rhoi'r toriadau mewn bag plastig i rwystro'r pennau rhag sychu. Dwi'n llenwi potiau gyda chompost a grut (potiau teracota os oes gennych chi rai, i'w hailgylchu yn y pen draw, yn hytrach na rhai plastig). Dwi'n tynnu'r dail isaf ac yn tocio darn uchaf y coesyn. Rhowch y pen mewn powdr gwreiddio ond yn aml mae nifer o lwyni'n gwreiddio'n llwyddiannus heb hyn. Gwnewch dwll yn eich compost gyda thyllwr neu weillen fwyta – *chopstick*, a rhowch eich toriad ynddo. Gwthiwch o i mewn i'r pridd nes bod y dail isaf ychydig uwchben top y compost



ac wedyn rhowch label arno – yn aml dwi'n anghofio beth rwy wedi'u plannu. Gorchuddiwch y toriad â phlastig a'i roi yn rhywle cynnes. Mae toriadau'n gwreiddio'n ddigon da o dan silffoedd y tŷ gwydr, ond rhaid iddyn nhw fod yn llaith drwy'r amser. Os ydych chi heb eu gorchuddio nhw, gwlychwch y dail yn ysgafn yn rheolaidd. Dylech weld ychydig o dyfiant ar ôl 2–3 wythnos. Dwi'n eu tynnu'n ysgafn, ac os ydyn nhw wedi gwreiddio, gallwch eu rhoi mewn potyn.

Yn anffodus, cefais fy atgoffo o beryglon cadw anifeiliaid yn ddiweddar. Mae Mr a Mrs Cadno wedi cael hyd i fy ieir, oherwydd eu hangen i fwydo'u cenawon, dros wythnos, gan eu nôl nhw fesul un yn ystod y dydd. Yr ieir bregus a ddaeth o'r lloches gafodd eu cymryd yn gyntaf, ond wedyn aeth y llwynogod â fy ieir aeddfed sy'n dodwy. Mae'n felltith ar bawb sy'n cadw ieir, ond mae gweld plu wedi'u gwasgaru ar y glaswellt a gweddill yr ieir mewn gwewyr yn achosi gofid mawr. Mae ieir yn greaduriaid eitha agored i niwed – maen nhw'n methu hedfan i osgoi perygl nac yn symud yn gyflym iawn. Bod mewn haid sy'n eu cadw'n ddiogel. Y ceiliog sy'n teyrnasu, neu'r iâr hynaf a mwyaf ymosodol. Ar waelod y drefn blaenoriaeth mae'r gwannaf a'r ieuengaf, sy'n mentro pan maen nhw'n gallu. Gan fod fy ieir yn cael crwydro, mae unrhyw anghytuno yn dod i ben gan fod yr ieir sy'n diodde yn gallu mynd i ran arall o fy ngardd neu fy nghae, ond ar hyn o bryd maen nhw i gyd gyda'i gilydd mewn un lle. Mae hyn yn achosi tyndra. Dwi wedi gorfod symud rhai o'r hen ieir i gwt gwag arall oherwydd roedden nhw'n cael eu bwlio. Mae cwt yr ieir a'r libart wedi cael eu diogelu rhag llwynogod, ac yn anffodus bydd yn rhaid i'r ieir aros yn y libart nes bydd y bygythiad wedi mynd neu pan fydd y caeau o gwmpas fy nhw wedi'u torri i wneud gwair/silwair. Mae hyn oherwydd bod ysglyfaethwyr yn gallu cuddio yn y glaswellt hir wrth iddyn nhw nesáu at ffiniau fy nhir. Rwy'n gobeithio bydd hyn yn cadw'r ieir sy'n weddill yn ddiogel.

**Hazel**

# Taith dractorau Dyffryn Clwyd

Yn dilyn y bore coffi ar 25 Mai i godi arian at Sefydliad DPJ ac Ambiwlans Awyr Cymru, lle llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £450, aeth y criw ymlaen y Sul canlynol, 2 Mehefin ar daith dractorau i godi arian at yr un ddau achos teilwng.

Roedd y daith yn 30 milltir o hyd, yn mynd trwy Graigfechan, Pentrecelyn, Mynydd Cricor, Moel Morfudd, Rhewl, Llantysilio, Pentredŵr, Ponderosa, Llandegla ac i lawr y Silff yn ôl i Ruthun.

Yn ôl Emma Grant, Arweinydd Materion Cyhoeddus Ambiwlans Awyr Cymru, ar gyfartaledd mae'n costio £10,000 y diwrnod i sicrhau bod gwasanaeth yr Ambiwlans Awyr yn hyfyw. Felly mae'r gwaith codi arian yn ddi-ben-draw.

Cafwyd amser gwych gan bawb a llwyddwyd i godi £3600 a fydd yn cael eu rhannu rhwng y ddwy elusen.

Diolch yn fawr i chi holl drigolion Llandyrnog am eich cefnogaeth – gwerthfawrogi'n fawr.

*Bryn Davies*



**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**
Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446



*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Gild Trefoil

Mwynhaodd y Gild ymweliad â gerddi Plas Coch a oedd yn llawn planhigion diddorol a pherllan o goed afal hynafol. Mae sudd yn cael ei wneud o'r afalau pan mae'n bosibl. Fe gawson ni baned a chacen a sgwrs ddiddorol, gan fod nain un o'n haelodau wedi'i geni yno pan oedd Plas Coch yn fferm.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn trafod iechyd meddwl, mewn sgwrs gan weithiwr proffesiynol.

# CPD Llandyrnog

Mae CPD Llandyrnog yn edrych ymlaen at y tymor newydd o dan arweiniad Liam Nash. Os hoffech chi helpu'r clwb trwy noddi pêl mewn gêm, bwrdd wrth ochr y cae, a/neu chwaraewr, cysylltwch drwy e-bost neu *Messenger*. Byddai'r clwb yn gwerthfawrogi unrhyw nawdd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â llandyrnogunitedfc@gmail.com.


**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Etholiad Cyffredinol 2024

Defnyddiwch eich pleidlais ddydd Iau, 4 Gorffennaf, a chofiwch mynd â cherdyn adnabod ffotograffig gyda chi. Mae ffiniau'r etholaeth wedi newid ac mae Llandyrnog yn etholaeth Dwyrain Clwyd, sy'n cynnwys:

- Yn Sir Ddinbych: Dyserth, Llandyrnog, Prestatyn, Tremeirchion, Llanarmon-yn-Ial, Llandegla, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llangynhafal, Llanfair Dyffryn Clwyd, Gwyddelwern, Llangollen a Rhuthun;
- Yn Sir y Fflint: Argoed, Brynffordd, Caerwys, Cilcain, Ffynnongroyw, Maes Glas, Gronant, Y Waun, Gwernymynydd, Helygain, Treffynnon, Coed-llai, yr Wyddgrug, Mostyn, New Brighton, Llaneurgain, Pentre Moch/ Neuadd Llaneurgain, Trelawnyd, Gwaenysgor a Chwitffordd;
- Yn Wrecsam: Llangollen Wledig.

Yr ymgeiswyr yw:
Jeanie Barton – Reform UK
Alec Dauncey – Democratiaid Rhyddfrydol
James Davies – Ceidwadwyr
Becky Gittins – Llafur
Lee Lavery – Y Blaid Werdd
Paul Penlington – Plaid Cymru
Rob Roberts – Annibynnol

## YSGOL BRYN CLWYD

Pennaeth: Mr Ben Lindquist
Cadeirydd y Llywodraethwyr: Dr Bethan Atkinson

Ysgol Bryn Clwyd
Llandyrnog,
LL16 4EY

llandyrnog@denbighshire.gov.uk

01824 790324

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae wedi bod yn fis Mehefin prysur i ddisgyblion Ysgol Bryn Clwyd. Aeth y Dosbarth Iau ar daith i gastell Conwy a mwynhau'n fawr, gan geisio dyfalu sut allai cefnogwyr Owain Glyndŵr fod wedi mynd i mewn i'r castell.

Gweithiwr yr ysgol i gyd gyda Miss Gemma i ddechrau creu ein hardal ysgol y goedwig ar y cae. Maen nhw wedi cael amser gwych yn eu gwersi cyntaf ysgol y goedwig.

Mae'r plant yn mwynhau mynd i'r ysgol ar sgwter yn fawr iawn, felly fe gawson ni fore arbennig yn dysgu sgiliau reidio sgwter yn ddiogel.

Yn olaf, trefnodd Miss Birkett 'Diwrnod Cymraeg' arbennig. Daeth Ysgol Gellifor aton ni am y diwrnod a chafodd y disgyblion hwyl mewn disco distaw, peintio arwyddion Croeso gyda'r artist Chloe Diamond, dysgu sgiliau rygbi, adeiladu den darllen, a mwynhau ymweliad arbennig gan Magi Ann.



Rydyn ni'n edrych ymlaen yn arw at berfformio *A funny thing happened on the way to Camelot* a fydd i'w weld yn y neuadd nos Fawrth, 9 Gorffennaf am 5.30. Croeso i bawb ymuno â ni yn yr hwyl!




*Un o'r arwyddion Croeso newydd*

# Rysáit

## Bara banana

**Cynhwysion**

8 owns o flawd codi
1 llwy de wastad o bowdr pobi
Pinsiad o halen
2 owns o fargarin neu 1 owns o fargarin/1 owns o fenyn
2 owns o siwgr mân
Croen 1 lemwn, wedi'i gratio
1 llond llaw mawr o syltanas
1 llond llaw mawr o gwrens
1 llond llaw mawr o resins
1 twb o geirios glacé, wedi'u torri yn eu hanner
1 llond cwpan de o fananas wedi'u stwnsio
1 wy
Llefrith i deneuo'r cymysgedd, os oes angen

**Dull:**

Rhowch y blawd codi, y powdr pobi a'r halen gyda'i gilydd drwy'r gogr i mewn i bowlen gymysgu.
Rhwbiwch y braster i mewn yn llwyr i'r blawd a.a.
Ychwanegwch y siwgr a chroen y lemwn – cymysgwch yn dda gyda llwy ffwrdd fetel.
Ychwanegwch y ffrwyth sych – cymysgwch nhw'n dda.
Ychwanegwch y ceirios a'u cymysgu'n dda.
Malwch y bananas mewn prosesydd bwyd/hylifydd, neu stwnsiwch nhw'n fân gyda fforc ac ychwanegwch nhw at y cymysgedd, gan eu cymysgu'n dda.
Curwch wy mewn powlen fach a'i ychwanegu at y cymysgedd, gyda diferyn o laeth os oes angen. Cymysgwch yn drwyadl.
Irwch dun pobi'n drwyadl a rhowch haenen ysgafn o flawd drosto.
Rhowch y cymysgedd yn y tun a gorchuddiwch y tun â ffoil.
Rhowch y tun yng nghanol popty sydd wedi'i gynhesu'n barod i 375 °F neu 190 °C am ryw 40–45 munud. Defnyddiwch sgiwer i ofalu bod y bara wedi'i goginio a rhowch ychydig ragor o amser os oes angen.
Defnyddiwch gyllell o gwmpas ymylon y tun i ryddhau'r bara pan mae'n barod, a rhowch y dorth ar resel i oeri.
Torrwch dafell o'r dorth, taenwch fenyn arni, a mwynhewch eich bara banana!

*Julia Hughes*

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.
Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com



# Dod i adnabod ... Jane Borthwick

Y tro yma, rydyn ni'n dod i adnabod Jane Borthwick, a gafodd ei hethol yn ddiweddar yn is-gadeirydd Cyngor Cymuned Llandyrnog.



*Beth yw hanes eich addysg chi?*
Ysgol y Ddôl yn Rhydymwyn oedd fy ysgol gyntaf i. Dydy hi ddim yn bod erbyn hyn, ond roedd yn debyg iawn i Ysgol Bryn Clwyd – mae'n fraint i mi fod yn llywodraethwr yr ysgol honno. Roedd yr ethos yn yr 1970au yn debyg i ethos y cwricwlwm newydd yng Nghymru rŵan – gwersi yn yr awyr agored, gwaith ar brosiectau a chwaraeon.

Roeddwn i wrth fy modd yn yr ysgol gynradd a dyna lle dechreuodd fy hoffter o ddysgu. Fe es i i Goleg Caer i hyffordd i fod yn athrawes. Byddwn i wedi hoffi bod yn fargyfreithiwr, ond roedd hyn ychydig yn rhy anodd i mi, felly fe wnes i hyfforddi yng Nghaer gydag ambell lwyddiant ac ambell fethiant. Ar fy mhrofiad dysgu olaf, bues i bron â rhoi'r ffidil yn y to gan ei fod yn anodd iawn, ond rwy'n falch fy mod i heb wneud. Petawn i wedi gwneud, byddwn i heb gael y cyfle i fod yn bennaeth, yn arolygwr ac yn swyddog ysgolion cynradd, fy swydd ar hyn o bryd a dwi wrth fy modd yn gwneud y gwaith yma.

*Beth wnewch chi nesa?*
Fel y gwyddoch, dwi'n hoffi her felly pwy a ŵyr beth ddaw nesa. Pan fydda i'n ymddeol ymhen blwyddyn neu ddwy, dwi'n gobeithio ymweld â rhagor o ynysoedd yr Alban, campio'n wyllt a theithio. Ar ôl ymweld â Denmarc eleni, hoffwn i fynd yn ôl i Sgandinafia. Dwi'n siŵr y bydda i'n codi rhagor o arian ar gyfer Doddie Aid ac ymchwil canser ac efallai, o'r diwedd, ddysgu sut i redeg ras!

*Os oes gennych amser rhydd, beth yw eich diddordebau?*
Gweithgareddau awyr agored yn bennaf – reidio beic, cerdd a nofio gwyllt, bod gyda fy wyrion, darllen a chefnogi'r gymuned leol. Ers i mi symud i'r pentre, mae gen i fwy o ddiddordeb mewn garddio, ac mae'r canlyniadau wedi bod yn amrywiol iawn. Dwi wrth fy modd yn byw yn Llandyrnog ac yn cael pleser mawr o gefnogi'r gymuned leol, Sefydliad y Merched a'r ysgol.

*Beth sy'n eich corddi chi?*
Gwleidyddiaeth a diffyg moesoldeb yn San Steffan a'r llywodraethau sydd wedi'u datganoli. Fe fyddai'n dda gen i petai gwleidyddion yn batrwm gwell i eraill. Mae ffeministiaeth fel petai'n cymryd cam yn ôl ac mae hyn yn fy nghorddi i hefyd, ac mae'r cynnydd mewn tlodi plant a'u cam-drin yn dorcalonnus yn yr oes sydd ohoni.

*Beth rydych chi'n fwyaf balch ohono?*
Siarad Cymraeg, Cymraeg Ysgol Maes Garmon. Anfonodd Mam a Dad fi i'r ysgol honno, er eu bod nhw'n dod o Gilgwri. Syrthiais i mewn cariad â'r iaith a dwi'n ei defnyddio pryd bynnag dwi'n gallu gwneud. Wrth ganu'n wael yn y gymanfa ddiweddar yn y capel, roedd hyn yn fy atgoffa am gael ffrae am sgwrsio yng nghefn y capel yn yr Wyddgrug yn yr 80au.

Dwi hefyd yn falch o fod yn nhîm sgio dŵr yn droednoeth Prydain yn 1982. Wnes i ddim ennill, ond cystadlu yn yr Almaen yn 17 oed oedd fy uchafbwynt ym myd y campau!

# Sefydliad y Merched Llandyrnog a Llangwyfan

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol Sefydliad y Mercher, Llandyrnog a Llangwyfan nos Fawrth, 4 Mehefin, yn yr Ystafelloedd Coco. Rhoddodd y pwyllgor adroddiad ar gyfarfod grŵp a gynhaliwyd yn neuadd y pentre ddiwedd mis Mai. Daeth 21 o ymwelwyr i'r cyfarfod hwn, yn ogystal ag aelodau ein cangen ni. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn – mwynhaodd pawb y gacen a'r brechdanau, ac roedden nhw wrth ei boddau gyda'r sgwrs gan Wendy Grey-Lloyd. Cafwyd llawer o ganmol a diolch i'r saith a drefnodd y cyfarfod.

Mae'r Sefydliad wedi defnyddio cyfraniad o £100 gan y cyngor cymuned i osod nifer o fasgedi crog lliwgar o gwmpas y pentre.

Prif siaradwr cyfarfod mis Mehefin oedd Mair Dowell, a ddaeth a dwy ffrind gyda hi i sôn am nyrsio drwy'r oesoedd.

Yn 16 oed, ysgrifennodd Mair at fetron Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl yn dweud ei bod am fod yn nyrs, a dechreuodd fel nyrs gadet pan oedd yn 17 oed. Gorffennaf dri mis o ddysgu cyn dechrau hyfforddi fel nyrs, gan ddysgu elfennau sylfaenol ond hynod bwysig gofal. Roedd yr hyfforddiant yn seiliedig ar roi blaenoriaeth i anghenion y claf.

Dywedodd Mair wrthym fod y nyrsys yn gorfod glanhau'r wardiau bob bore, gan sgwrsio â'r cleifion ar yr un pryd, a dod i'w hadnabod. Roedd Metron yn mynnu bod rhaid i'r lle fod yn lân!

Mae nyrsys y dyddiau hyn yn cael hyfforddiant mwy academaidd ac mae'r swydd yn brysurach o lawer, felly mewn ambell ffordd maen nhw'n cael llai o brofiad ymarferol. Mae hyn yn drueni, wrth i Mair esbonio bod llawer o'r gofal yn seiliedig ar edrych ar y cleifion a sgwrsio gyda nhw, a mesur pwysedd gwaed, cymryd eu tymheredd a.a. Doedd sganiau ddim yn bod yn y dyddiau cynnar – mae'r rhain yn wych, ond dydyn nhw ddim bob amser yn rhoi'r darlun llawn. Newid arall yw nad yw'r nyrsys yn mynd gyda'r doctoriaid o gwmpas y wardiau, ac mae eu gwisg yn fwy ymarferol ar gyfer y gwaith.

Erbyn hyn mae'n rhaid i nyrsys ailgofrestru bob blwyddyn ac mae hyn yn mynd â'u hamser. Mae mwy o weinyddiaeth wedi dod i'r gwaith, wrth i dechnoleg a chofnodion gofal ddod yn bwysicach.

Bu Mair yn hel atgofion am shifftiau nos gyda dim ond un aelod o staff ar ddyletswydd, heb unrhyw seibiant. Hefyd am y Metron yn gwybod am gampau'r darpar nyrsys, ond wrth gwrs heb ddangos eu bod yn gwybod! Roedd nifer o'r aelodau a oedd yn gwrando ar sgwrs Mair yn hael iawn eu canmoliaeth o'r GIG a'r gofal maen nhw wedi'i gafael gan staff hyfryd, ymroddedig. Mwynhaodd pawb y sgwrs yn fawr iawn.

Yn ein cyfarfod nesa nos Fawrth, 2 Gorffennaf, bydd Tracey Pierce o'r lloches draenogod yn dod i siarad â ni. Croeso cynnes i bawb.

# Sioe Geffylau Llandyrnog



Am ddiwrnod bendigedig – diolch i bawb am eu cefnogaeth. Roedden ni mor lwcus o ran y tywydd!

Diolch o galon i deuluoedd Jones ac Evans am gael defnyddio'r cae ac am ei baratoi; y beirniaid a'r stiwardiaid; y noddwyr a gyfrannodd at y sioe neu roi gwobrau – roedd stondinau hyfryd ar y cae. A diolch yn fawr iawn iawn i'r cystadleuwyr, yn enwedig y rhai a fu'n cystadlu mewn gwisg ffansi! Yn olaf, diolch i'r pwyllgor a'r teuluoedd am drefnu'r sioe.

*Iona Pierce*




Bydd y Sioe Flodau a Chynnyrch yn digwydd ddydd Llun, 26 Awst ac mae'r paratoadau'n dod yn eu blaenau'n dda. Llywydd y Sioe eleni fydd Bryn Williams, y pen-cogydd a'r awdur, a fydd yn agor y sioe. Bydd pabell fwy eleni, yn cynnwys ffair grefftau a stondinau ychwanegol. Hefyd bydd y sioe gŵn yn digwydd eto, yn sgil llwyddiant y sioe y llynedd. Ni fydd yn rhaid i chi dalu i ddod i mewn i'r sioe, ond byddwn yn croesawu cyfraniadau'n fawr iawn.

Mae'r rhaglenni'n cael eu hargraffu ar hyn o bryd ac yn hollol ddwyieithog. Ein nod yw eu dosbarthu i bob cartref yn ein dalgylch (o fewn 3km i Neuadd y Pentre) o fewn pythefnos cyntaf mis Gorffennaf. Os byddwn yn methu unrhyw le, bydd copïau caled ychwanegol neu raglen electronig ar gael gan yr Ysgrifennydd, Roger Warner, yn Cross Keys. Mae'r rhaglen hefyd i'w gweld ar wefan y Cyngor Cymuned – www.llandyrnogcommunitycouncil.co.uk.

Mae ffurflenni cystadlu yn y rhaglen ac mae 141 o ddosbarthiadau yn y sioe. Mae'r rhain yn cynnwys categorïau ffrwythau a llysiau, cynnyrch cartref, blodau, trefnau blodau, dosbarthiadau i blant, crefftau a ffotograffiaeth. Does dim rhaid i chi fod yn arbenigwr i gystadlu – mae croeso cynnes i bawb wneud a does dim angen talu i gystadlu. Bydd bocs yng nghyntedd yr eglwys i chi roi'ch ffurflenni ynddo, o ddechrau mis Awst. Neu gallwch ofyn am ffurflen electronig gan yr Ysgrifennydd drwy anfon e-bost at llandyrnogshow@gmail.com.

# Llan Llanast

Yn ein cyfarfod mis Mehefin, clywsom am stori y bachgen Samuel oedd yn byw i wasanaethu Duw a helpu Eli. Byddai ei fam yn ymweld ag o bob blwyddyn yn y Deml a dod â chôt newydd iddo. Un noson, meddyliodd Samuel fod Eli wedi galw arno, ond yn y diwedd sylweddolodd Samuel mai llais Duw oedd yn galw arno, a dywedodd Samuel '*Siarada Arglwydd, mae dy was yn gwrando*'. Felly dyma ni'n gwneud gweithgareddau'n ymwneud â gwrando, a dysgom ni bod Duw yn siarad gyda ni mewn gwahanol ffyrdd, a rhaid i ni fod yn barod i wrando ar ei alwad.

Bydd ein sesiwn nesa' pnawn Sul 14 Gorffennaf am 3.30 yn y Neuadd, ac mae croeso i bawb. Blant, cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi i rannu'r hwyl!



# Tuesday Club

Cafodd aelodau'r Tuesday Club eu cinio haf yn y Drovers Arms, Rhewl y mis diwetha. Cawsom ofal arbennig gan Sam a Sion Hilditch Roberts ac roedd y bwyd yn ardderchog, fel arfer.

Bydd y cyfarfod nesaf bnawn dydd Mercher, 17 Gorffennaf am 2 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco. Croeso cynnes i aelodau newydd.

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

**Paid edrych yn ôl**

Cafwyd darlith ddiddorol iawn gan  Wendy Grey-Lloyd ar y Merched o Guernsey ddaeth i Ddinbych adeg yr 2il Ryfel Byd. Mae Wendy'n dod yn wreiddiol o Aberfan ac wedi bod yn athrawes ddrama yn Ysgol Howell's, Dinbych am nifer o flynyddoedd.

Wedi ymddeol, cafodd gyfle i ymchwilio i hanes y 60 merch o'r 'Ladies College' yn Guernsey ddaeth i Ysgol Howells i letya cyn i'r Almaenwyr oresgyn yr Ynys.

Roedd yr Iseldiroedd a Gwlad Belg wedi eu goresgyn yn barod, a gwnaed penderfyniad o fewn 24 awr, fis Mehefin 1940, i anfon tua 4000 o ddisgyblion ysgolion Guernsey i Brydain.


Ar long y *Batavier IV* yr aeth y merched liw nos, a'r staff a'r rhai hŷn yn gofalu dweud wrth y rhai iau am 'beidio edrych 'nôl'  – lle roedd rhieni yn sefyll, yn dal mewn sioc ac yn eu dagrau.

Cyraeddasant Weymouth, ac erbyn fis Medi, roedden nhw wedi setlo efo teuluoedd croesawgar Dinbych, a dod yn rhan o'r Gymdeithas. Bydden nhw'n mynd bob dydd am eu gwersi i Ysgol Howell's – staff y 'Ladies College' yn unig oedd yn eu dysgu ym mhopeth ond chwaraeon a gwyddoniaeth.



*Gwen Butler, Wendy Grey-Lloyd, yr Hybarch Bernard Thomas*

Tua diwedd y Rhyfel, cafodd y merched weld eu teuluoedd am y tro cyntaf mewn pum mlynedd – llawer ohonynt ddim yn adnabod eu rhieni oherwydd y newyn yno, a'r dioddefaint o dan y Nazis. Methodd rhai â setlo'n ôl, a mynd i edrych am waith 'nôl ym Mhrydain.




Roedd tad Gwen Butler, Llangwyfan – Edward Watkin Evans (Ted) B.E.M., Ost.J , yn wreiddiol o Graigadwywynt, yn y Llynges Fasnach adeg y rhyfel. Aeth o â'i long *Channel Queen* â llawer o fwyd a nwyddau drosodd i Guernsey yn syth ar ôl y Rhyfel, a bu hynny'n achubiaeth i lawer yno. Bu'n mynd yn rheolaidd i Guernsey wedi'r Rhyfel ar gyfer y diwrnod i gofio eu rhyddhau o grafangau'r Almaen.

Mae 'stafell yn y *Ladies College*, Guernsey o'r enw *Denbigh* i gofio am y croeso twymgalon a gawsant yn Ninbych ar amser tyngedfennol yn eu hanes.

Bydd y daith flynyddol ar Orffennaf 20 yn mynd i Eglwys St. Dyfnog a'r cyffiniau, ac yna i'r Laundry i gael te (£10 y pen). Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com.

# Neges gan ein hoffeiriad

Mae llawer yn digwydd yn ein bywydau ar hyn o bryd. Gyda'r Etholiad Cyffredinol ar fin digwydd, bydd newidiadau'n debygol o ddigwydd ledled y Deyrnas Unedig. Hefyd, bydd pencampwriaeth pêl-droed yr Ewros yn parhau tan ganol mis Gorffennaf, a bydd pencampwriaeth tennis Wimbledon yn digwydd hefyd. Ac wedyn, y gemau Olympaidd ym Mharis ddiwedd y mis. Er bod y tywydd wedi bod yn rhyfeddol o oer, mae'r haf poeth wedi mentro allan a chyn bo hir bydd hi'n wyliau haf y flwyddyn academaidd.

Rydyn ni'n profi newid drwy'r amser. Pos adnabyddus mae myfyrwyr yn dechrau astudio ar gyfer gradd mewn athroniaeth yn ei gael yw, 'Pam nad ydych chi'n gallu sefyll yn yr un man mewn afon ddwywaith?' Mae rhai'n gallu ateb yn gywir, mae'n siŵr bod llawer yn chwilio am yr ateb ar Google erbyn hyn. Yr ateb yw, 'oherwydd bod yr afon yn llifo, felly mae'n symud drwy'r amser'.

Mae rhinweddau'r Beibl fel petaen nhw'n newid yn gyson gyda'r holl amrywiaeth o gyfieithiadau yn y fersiynau a'r ieithoedd gwahanol, ond mae'n llawn gwybodaeth. Mae nifer fawr o Gristnogion yn credu mai Duw sydd wedi ysbrydoli llawer o'r testun yn ei 66 o lyfrau a phan fyddwn yn ei ddarllen, gall Duw siarad â ni drwyddo. Mae gan lyfr y Pregethwr, a ysgrifennwyd tua 3000 o flynyddoedd yn ôl, ddarn hynod deimladwy a gafaelgar am y pwnc hwn:

Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef:
amser i eni, ac amser i farw,
amser i blannu, ac amser i ddiwreiddio'r hyn a blannwyd;
amser i ladd, ac amser i iacháu,
amser i dynnu i lawr, ac amser i adeiladu;
amser i wylo, ac amser i chwerthin,
amser i alaru, ac amser i ddawnsio;
amser i daflu cerrig, ac amser i'w casglu,
amser i gofleidio, ac amser i ymatal;
amser i geisio, ac amser i golli,
amser i gadw, ac amser i daflu ymaith;
amser i rwygo, ac amser i drwsio,
amser i dewi, ac amser i siarad;
amser i garu, ac amser i gasáu,
amser i ryfel, ac amser i heddwch.

Mae tymor i bob peth mewn bywyd ac mae gwybod bod y Brenin Solomon wedi ysgrifennu hyn mor bell yn ôl yn gallu bod yn gysur mawr. Ysgrifennydd y testun gyda doethineb Duw ac mae'r un mor wir heddiw ag yr oedd yng nghyfnod Solomon. Beth bynnag rydyn ni'n ei wynebu yn ein bywydau, waeth pa mor anodd y bo, bydd darllen y testun hwn a chredu bod tymor i bob peth yn rhoi heddwch i chi, y tangnefedd dwfn, y *shalom* gan Dduw. Beth bynnag fydd yn eich wynebu yn y bywyd cyfnewidiol hwn, y da a'r drwg, gallwch ystyried bod Duw gyda ni, ym mhob tristwch a chysur.

Pob bendith i chi ym mha newid bynnag sydd o'ch blaen chi.

*Y Parch. Martin Pritchard*
*Ardal Cenhadu Dinbych*


**Mike Neumann**
**Printers Ltd**

- Business printing
- Personalised printing
- Office supplies
- Helium balloons



01745 814067
07766 807498

41 Vale Street, Denbigh LL16 3AH
neumannprinters@aol.com
neumannprintersdenbigh.co.uk

# Cyngor Cymuned Llandyrnog

Rhai o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mehefin

Roedd hi'n siomedig nad oedd Cyngor Sir Ddinbych wedi ymateb i gais i dorri'r tyfiant ar y palmant rhwng y pentre a safle'r hen hufenfa. Cyflwynwyd achos ar sail diogelwch – mae'n rhaid i bobl gerdded ar y ffordd i osgoi'r tyfiant. Hefyd, nid oedd y Cyngor Sir wedi ymateb i ymholiad ynglŷn pryd y byddai'r gordyfiant wrth gyffyrdd yn cael eu torri er mwyn gallu gweld y ffordd yn well.

Roedd deilydd y portffolio na Phennaeth Gwasanaeth y Cyngor Sir wedi ymateb yn uniongyrchol i'r Cyngor Cymuned ynglŷn â pham roedden nhw wedi penderfynu peidio â defnyddio contractwr lleol i agor ffosydd ar ochr y ffordd a'u hagor, a beth roedden nhw'n ei gynnig yn ei le.

Mae'r Cyngor Sir wedi dweud y bydd y rhigolau dwfn ar y ffordd rhwng Rhiwbebyll Isa a Gwynfa yn cael eu llenwi pryd bydd adnoddau'n caniatáu hynny.

Arolygydd newydd Heddlu Gogledd Cymru yw Nathan Harvey, ac mae'n dymuno ymweld â'r cyngor cymuned cyn bo hir.

Penderfynwyd gwneud cais i roi mainc gyferbyn â'r hen hufenfa, i roi seibiant i bobl sy'n cerdded rhwng y gylchfan a'r pentref. Petai ymylon y ffordd yn cael eu clirio hefyd, byddai'n annog pobl i fynd am dro yn ystod misoedd yr haf.

Penderfynwyd creu partneriaeth gyda'r Cyngor Sir i gael cyflenwad o ddŵr i randiroedd y cyngor y tu ôl i Nant Glwyd – y farn oedd bod diffyg cyflenwad dwr yn rhwystro pobl rhag eu defnyddio. Bydd CSDd yn talu am yr holl waith gosod a'r cyngor cymuned, am bum mlynedd, yn talu'r tâl sefydlog ac am ddefnyddio dŵr.

Cafwyd cais cynllunio wedi'i ddiwygio ar gyfer 4 a 5 Sgwâr yr Eglwys. Roedd adran briffyrdd CSDd wedi gwrthwynebu mynediad i Barc Tŷ'n Llan ac arweiniodd at ddiwygio'r cais. Roedd y cyngor cymuned yn siomedig bod y paneli solar wedi'u hepgor hefyd.

Penderfynwyd rhoi cynnig ar ddefnyddio Zoom mewn cyfarfodydd hybrid – bydd cyfarfod mis Gorffennaf yn brawf ar hyn, gan obeithio defnyddio'r drefn yn llawn ym mis Medi.

Roedd y tîm cyllid wedi cyfarfod cyn y prif gyfarfod a'r farn oedd bod angen cynllun buddsoddi. Y Clerc i drefnu cyfarfod yng Nghae Nant, 11 Gorffennaf, i drafod y dewisiadau.

Does dim rhagor o ddatblygiad o ran cais y Kinmel Arms – mae'r safle wedi cael ffens o'i gwmpas a'r ffenestri wedi'u bordio i warchod yr eiddo.

Y gobaith yw y bydd y Swyddog Awyr Dywyll yn gallu bod i gyfarfod i sôn am ei gwaith.

Penderfynwyd rhoi blodau a cherdyn i'r Cyngh. Griffith i ddiolch am ei thymor hir yn gadeirydd.

Diolchwyd i'r Cynghorwyr Wright a Butler a'r Clerc am eu gwaith yn plannu blodau ar y gylchfan.

